



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Penmaes

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Penmaes yn darparu system gymorth gref ar gyfer lles emosiynol disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod eu pryderon bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif gan bob aelod o staff. Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio i baratoi profiadau dysgu ystyrlon sy'n diwallu anghenion y disgyblion. Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas ac yn datblygu medrau gwerthfawr sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluedd unigol.

Mae'r pennaeth wedi gweithio gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni i greu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio'n gadarn ar greu 'unigolion llwyddiannus, iach a meithrin rhagoriaeth' ('successful, healthy, individuals and nurturing excellence') (SHINE).

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff o fewn amgylchedd yr ysgol. Mae achosion o fwlio yn brin. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'r system gymorth sydd ar gael iddynt pan fyddant yn profi tristwch neu anhapusrwydd. Mae hyn yn cynnwys gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni ac asiantaethau eraill. O ganlyniad, mae presenoldeb yn yr ysgol wedi dangos tuedd o wella dros gyfnod o dair blynedd.

Mae'r ysgol yn cydweithio â'r awdurdod lleol i sicrhau ymdriniaeth gyflym ac effeithiol â'r pryderon a godir ynghylch diogelu. Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n gryf i les a diogelwch plant.

Mae addysgu effeithiol yn canolbwyntio ar brofiadau dysgu cynlluniedig, unigoledig ac ystyrlon sydd wedi'u teilwra i anghenion disgyblion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o adnoddau cyfarwydd i gynnal ymgysylltiad. Mae athrawon yn ymgysylltu'n dda â disgyblion trwy holi syml a thargedig, ac yn rhoi digonedd o amser iddynt feddwl. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau fel lluniau yn effeithiol i'w cynorthwyo i fynegi emosiynau, ac o ganlyniad, mae medrau cyfathrebu disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae medrau disgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n raddol, gyda thasgau fel paratoi ar gyfer egwylion a dewis gweithgareddau'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn ystyried dysgu blaenorol disgyblion yn ddigon da, ac mae cyflymdra araf gwersi a her annigonol yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Nid yw sicrhau ansawdd yr addysgu yn darparu digon o fanylion ar feysydd i'w gwella i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu harfer ymhellach.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

- A1 Sicrhau bod cynllunio ac addysgu yn rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion a galluoedd y disgyblion ac yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol
- A2 Sicrhau bod hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac asesu, yn canolbwyntio'n glir ar wella addysgu a dysgu
- A3 Parhau i weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod y pwll hydrotherapi yn cael ei atgyweirio a'i gomisiynu ar gyfer ei ddefnyddio cyn gynted ag y bo modd
- A4 Parhau i weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r cymorth a ddarperir gan wasanaeth nyrsio'r ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](#).



© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.